

Diweddariad Blynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru – 2020/2021



Croeso i ddiweddariad blynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru, sy'n rhoi cipolwg i chi o'r gwaith y mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'i wneud dros y deuddeg mis diwethaf. Ni allem fod wedi rhagweld pa mor unigryw ac annisgwyl fyddai'r flwyddyn ond er gwaethaf yr heriau a wynebwyd rydym wedi bod yn arloesol ac wedi cyflawni o ran Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru 2020/21 a luniwyd cyn gwybod am oblygiadau ac effeithiau pan demig COVID-19.

Roedd gan y cyfyngiadau symud a theithio a roddwyd ar waith ledled y DU y potensial i amharu'n ddifrifol ar weithgareddau Partneriaeth Pensiwn Cymru, gan fod yr Awdurdodau Cyfansoddol wedi'u lleoli ym mhob cwr o Gymru, a'n darparwyr a'n hymgyngorwyr wedi'u lleoli ledled y DU. Fodd bynnag, rydym wedi croesawu'n llawn y defnydd o dechnoleg, ac mae hyn wedi ein galluogi i gyfarfod yn fwy rheolaidd na'r hyn fyddai wedi bod yn bosibl heb fabwysiadu cyfarfodydd rhithwir. Mae cynnal cyfarfodydd mwy aml wedi gwella'r lefelau uchel o gyfathrebu a oedd eisoes yn digwydd ymhlith yr Awdurdodau Cyfansoddol ac yn sicr mae wedi meithrin lefelau uwch o gydweithio yn y Gronfa. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Awdurdodau Cyfansoddol am yr amser a'r egni y maent yn eu cyfrannu at y trefniadau cydweithio, yn ogystal â'u positifrwydd a'u hyblygrwydd dros y deuddeg mis diwethaf.

Roedd lansio is-gronfeydd Incwm Sefydlog Partneriaeth Pensiwn Cymru yn amcan allweddol ar gyfer 2020/21 ac rydym yn falch o gyhoeddi, ym mis Awst a Medi 2020, gyda chymorth Link Fund Solutions, Russell Investments a Hymans Robertson, gwnaethom lansio pum is-gronfa Incwm Sefydlog y cafodd eu dyluniad a'u natur eu llywio gan anghenion a gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol. Mae pob Awdurdod yn defnyddio o leiaf un o'r is-gronfeydd hyn - mae hyn yn dangos ein bod wedi gallu datblygu ystod o atebion buddsoddi cymhellol iawn i'n rhanddeiliaid allweddol. Roedd yr ymarfer hwn yn bwynt gwirio allweddol arall ar ein taith wrth i ganran asedau cyfun Partneriaeth Pensiwn Cymru gyrraedd dros 65% (gan gynnwys ein buddsoddiadau goddefol).

Roedd perfformiad buddsoddi'r is-gronfeydd presennol yn destun balchder dros y flwyddyn, gan eu bod yn perfformio'n sylweddol well na'u meincnodau, **gweler y tabl isod**, er gwaethaf y lefelau o anwadalrwydd o ran y marchnadoedd ariannol yn sgil COVID-19. Rydym yn gwbl ymwybodol o'r angen nid yn unig i ddatblygu is-gronfeydd newydd ond hefyd i sicrhau bod y rhai presennol yn parhau i gyd-fynd ag anghenion yr Awdurdodau Cyfansoddol. O ganlyniad, rydym wedi mabwysiadu mecanwaith datgarboneiddio arloesol iawn i leihau'r lefelau o risg carbon o fewn rhai o'r is-gronfeydd presennol.

	Perfformiad PPC dros 12 mis hyd at 31 Mawrth 2021 (Ffioedd Net)				
	Dyddiad Dechrau	Asedau Dan Reolaeth (£'000)	Cronfa %	Meincnod %	Cymharol %
Is-gronfeydd Ecwiti					
Twf Byd-eang	6 Chwefror 2019	3,061,322	48.95	38.94	10.01
Cyfleoedd Byd-eang	14 Chwefror 2019	2,624,491	42.21	38.94	3.27
Cyfleoedd y DU	11 Hydref 2019	674,459	41.01	26.71	14.30
Is-gronfeydd Incwm Sefydlog					
Credyd y DU *	19 Awst 2020	550,986	(0.63)	(0.41)	(0.22)
Bond Llywodraeth Fyd-eang*	19 Awst 2020	526,762	(0.91)	(2.62)	1.71
Credyd Byd-eang *	20 Awst 2020	791,481	(0.09)	(1.21)	1.12
Cronfa Credyd Aml-asedau *	11 Awst 2020	714,417	5.91	2.58^	
Bond Elw Absoliwt *	30 Medi 2020	456,254	2.04	1.02^	

* Sylwch fod y perfformiad hwn yn berthnasol ers adeg sefydlu. ^ Mae'r rhain yn cynrychioli targedau perfformiad y Cronfeydd Credyd Aml-asedau a Bond Elw Absoliwt

Byddwn yn lansio is-gronfa ecwiti Marchnad Ddatblygol yn hydref 2021 ac mae cynnydd da hefyd yn cael ei wneud o fewn Marchnadoedd Preifat.

Mae llywodraethu yn hanfodol bwysig ac rydym wedi parhau i ddatblygu ein gweithdrefnau a'n polisïau, a gellir gweld pob un ohonynt ar ein gwefan: [Cronfa Bensiwn Cymru | Cartref \(partneriaethpensiwncymru.org\)](https://www.cronfa-bensiwn.org). Rydym hefyd yn cynnal adolygiadau blynyddol o'n holl bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas ac yn effeithiol.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn agored i nifer o risgiau sydd â'r potensial i gael effaith negyddol ar ein rhanddeiliaid, felly gwnaethom ganolbwyntio ar lunio Polisi Risg helaeth yn ystod y flwyddyn sy'n amlinellu sut rydym yn nodi, yn rheoli ac yn monitro risgiau. Yn ogystal, gwnaethom ddatblygu Cofrestr Risg i fonitro a rheoli risgiau posibl a sefydlwyd Is-grŵp Risg pwrpasol i gynnal a gwerthuso Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru bob chwarter. Mae Polisi Gwrthdaro Buddiannau hefyd wedi'i ddatblygu yn ystod y flwyddyn sy'n amlinellu'r gweithdrefnau rydym wedi'u rhoi ar waith i reoli a lliniaru i ba raddau y gall gwrthdaro buddiannau gael effaith negyddol ar rhanddeiliaid Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Mae Buddsoddi Cyfrifol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Awdurdodau Cyfansoddol Cymru. Dros y deuddeg mis diwethaf, rydym wedi gweithio gyda nhw i ddrafftio a chytuno ar Bolisi Risg Hinsawdd – mae hyn yn amlinellu ein credoau unedig o ran risg hinsawdd a pha fesurau rydym wedi'u mabwysiadu i reoli'r risg hinsawdd o fewn Is-gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru. Ym mis Awst 2020, sefydlwyd Is-grŵp pwrpasol o ran Buddsoddi Cyfrifol gan Partneriaeth Pensiwn Cymru i gydnabod pwysigrwydd y pwnc hwn. Mae'r Is-grŵp yn cyfarfod ddwywaith bob chwarter ac mae'n gyfrifol am ddatblygu unrhyw ffrydiau gwaith sy'n gysylltiedig â Buddsoddi Cyfrifol. Mae'r Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol eisoes wedi dangos ei effeithiolrwydd a'i effeithlonrwydd drwy gyflawni un o'r prif ymrwymiadau a wnaed ym Mholisïau Risg Hinsawdd a Buddsoddi Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru, sef datblygu adroddiadau sy'n caniatáu i Partneriaeth Pensiwn Cymru fonitro a rheoli risgiau o ran Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd. Mae'r Is-grŵp bellach yn derbyn adroddiadau manwl o ran monitro Risg Hinsawdd a Buddsoddi Cyfrifol ar gyfer pob un o Is-gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru bob chwarter.

Mae Pleidleisio ac Ymgysylltu yn elfen bwysig arall o reoli risg hinsawdd ac rydym yn falch ein bod wedi gallu parhau â'n gwaith gyda Robeco yn y maes hwn. Mae Robeco yn ymgysylltu â chwmnïau sy'n buddsoddi ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru ar faterion sy'n ymwneud â rheoli risgiau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethol a risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, yn ogystal ag ymgysylltu ar ystod lawer ehangach o faterion sy'n cynnwys seiberddiogelwch a llywodraethu corfforaethol. Mae Robeco yn sicrhau bod Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cyflawni ei dyletswyddau stiwardiaeth drwy fwrw pleidleisiau ym mhob un o gyfarfodydd cyffredinol blynyddol cwmnïau sy'n buddsoddi. Fel rhan o'n gwaith gyda nhw, rydym wedi mabwysiadu Polisi Pleidleisio Partneriaeth Pensiwn Cymru, sydd i'w weld ar y wefan, ac rydym wedi rhoi gwybod i Robeco am ein blaenoriaethau o ran pleidleisio.

Credwn fod arloesi, hyfforddi a chyfathrebu yn hanfodol i'n llwyddiant ac rydym yn gwella'n barhaus yr hyfforddiant rydym yn ei gynnig a'r dulliau cyfathrebu sydd gennym ar waith. Er gwaethaf COVID-19, roeddem yn gallu darparu Cynllun Hyfforddiant Partneriaeth Pensiwn Cymru 2020/21 yn llawn. Gwnaethom gynnal saith digwyddiad hyfforddi rhithwir yn ystod y flwyddyn, gyda phynciau'n cynnwys cyfleoedd cydweithio, gwneud penderfyniadau, pleidleisio ac ymgysylltu. Roedd nifer dda o'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi mynychu ein holl ddigwyddiadau hyfforddi ac mewn rhai achosion, roedd dros saith deg o bobl yn bresennol.

Mae ein llwyddiant yn dibynnu ar ein gallu i gyfathrebu a deall anghenion yr Awdurdodau Cyfansoddol. Mae cyfarfodydd rhithwir wedi gwella ein lefelau cyfathrebu ac roedd ein 'Holiadur Awdurdod Cyfansoddol: Gofynion a Dyheadau' blynyddol hefyd wedi rhoi data amhrisiadwy i ni gan y Pwyllgorau Pensiwn a'r Byrddau Pensiwn. Gwnaeth ein 'Hymgyngoriad ar Fuddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd' ein galluogi i ddeall yn well yr hyn sydd ei angen ar bob Awdurdod Cyfansoddol gan y Gronfa mewn perthynas â materion Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd. Roedd yr ymarfer yn hynod o ddefnyddiol i bob parti a byddwn yn ei wneud yn ymarfer blynyddol.

Rydym yn falch o'r cynnydd yr ydym wedi gallu ei wneud eleni er gwaethaf yr amgylchiadau heriol. Eleni, mae'r berthynas rhwng Awdurdodau Cyfansoddol Cymru wedi cryfhau ymhellach ac mae wedi dangos manteision cydweithio yn glir. Rydym yn edrych ymlaen at wneud cynnydd pellach yn 2021/22 ac at roi diweddariad arall i chi ymhen deuddeg mis. Ewch i wefan Partneriaeth Pensiwn Cymru i gael gwybod am ddatblygiadau pellach a chyhoeddiadau newyddion drwy gydol y flwyddyn.